OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2803 (Cy.236)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - -	*25 Medi 2007*
Yn dod i rym - -	*15 Hydref 007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 1 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Hydref 2007.

Cymeradwyo

2. Rhaid i unrhyw gymeradwyaeth o dan y Gorchymyn hwn neu unrhyw adnewyddiad, diwygiad, ataliad neu ddirymiad o gymeradwyaeth fod yn ysgrifenedig.

Cymeradwyo diheintyddion

3.—(1) Caniateir i weithgynhyrchydd diheintydd wneud cais i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r diheintydd hwnnw ar gyfer ei ddefnyddio mewn achosion pan fydd gorchymyn o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn pennu bod yn rhaid defnyddio diheintydd a gymeradwywyd.

(2) Dim ond os ydynt wedi'u bodloni ynghylch y canlynol y caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo diheintydd—

(a) o ran ei effeithiolrwydd a'i ansawdd; a

(**1**) 1981 p. 22; gweler adran 86(1) i gael y diffiniad o "the Ministers". Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044, ac maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(b) ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol 2001(**2**).

(3) O ran y gymeradwyaeth—

(a) rhaid pennu'r gyfradd wanhau; a

(b) caiff gynnwys amodau penodol y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.

(4) Caniateir i Weinidogion Cymru gynnal profion ar y diheintydd ar unrhyw adeg, a rhaid iddynt gynnal profion arno cyn ei gymeradwyo oni bai —

(a) bod gan y diheintydd yr un fformiwleiddiad â diheintydd arall a weithgynhyrchir gan y gweithgynhyrchydd sy'n gwneud y cais;

(b) bod y diheintydd arall yn ddiheintydd a gymeradwywyd; ac

(c) y gwneir cais am gymeradwyaeth i'w ddefnyddio yn unig mewn un neu fwy o amgylchiadau y cafodd y diheintydd arall ei gymeradwyo ar eu cyfer.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o ddiheintyddion a gymeradwywyd.

(6) Yn erthygl hon, ystyr "cyfradd wanhau" yw nifer y rhannau o ddwr sydd i'w defnyddio i wanhau un rhan o ddiheintydd a gymeradwywyd.

Defnyddio'r diheintydd

4. Dim ond yn unol ag amodau ei gymeradwyaeth neu'n unol â chyfarwyddyd arolygydd y ceir defnyddio diheintydd a gymeradwywyd.

Parhad cymeradwyaeth ac adnewyddiad ohoni

5.—(1) Mae cymeradwyaeth yn para am ddwy flynedd, a chaniateir ei hadnewyddu o fewn 3 mis cyn iddi ddod i ben.

(2) Os gwneir cais i adnewyddu, mae'r gymeradwyaeth yn parhau'n ddilys tan y dyddiad pryd y caiff y ceisydd ei hysbysu o'r penderfyniad i adnewyddu neu wrthod adnewyddu.

Diwygio, atal a dirymu cymeradwyaethau

6.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio, atal neu ddirymu'r gymeradwyaeth neu wrthod adnewyddu'r gymeradwyaeth os peidiwyd â chynhyrchu'r diheintydd neu os o ran y diheintydd—

(a) nad yw bellach yn effeithiol neu o ansawdd addas;

(b) nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw amod yn y gymeradwyaeth; neu

(c) nad yw'n cydymffurfio â Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol 2001.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd atal cymeradwyaeth tra cynhelir ymchwiliad ar unrhyw ddiheintydd os oes ganddynt seiliau rhesymol dros amau bod unrhyw un o'r seiliau ym mharagraff (1) yn gymwys

Sylwadau i Weinidogion Cymru

7.—(1) Caiff gweithgynhyrchydd wneud sylwadau yn erbyn—

(a) gwrthodiad i roi neu adnewyddu cymeradwyaeth;

(b) diwygiad, ataliad neu ddirymiad o gymeradwyaeth; neu

(c) unrhyw amod ar gymeradwyaeth,

i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2001/880, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/429, 2005/2451 a 2005/2759.